Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfarwyddwr Cyllid

Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Civil Service Commissioners

Cynnwys

1. Neges gan Judith Paget

2. Cefndir Llywodraeth Cymru

3. Diben y swydd

4. Cyfrifoldebau allweddol

5. Manyleb y person

6. Y cyfleoedd datblygu a gynigir gan y swydd

7. Sut i wneud cais

8. Y broses ddethol

9. Telerau penodi

Atodiadau

A – Datganiad Arweinyddiaeth y Gwasanaeth Sifil

B – Cod y Gwasanaeth Sifil

1. **Neges o groeso gan Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/ Prif Weithredwr GIG Cymru**

Diolch am eich diddordeb yn swydd y Cyfarwyddwr Cyllid ac rwy'n falch iawn yr hoffech wybod mwy am y rôl. Mae hon yn swydd unigryw a chyffrous sy'n chwarae rhan hanfodol yn fy nhîm Cyfarwyddwyr Gweithredol, sydd wrth galon y gwaith o gyflawni rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru.

Rwy'n chwilio am arweinydd cadarn, a fydd yn ysbrydoli, i roi cyngor rhagorol i'r Gweinidogion. Bydd yn unigolyn a fydd yn meddu ar y brwdfrydedd a'r arloesedd i gyflenwi gwasanaethau arbenigol drwy gyflawni 'Cymru Iachach', y strategaeth iechyd a gofal cymdeithasol ddeng mlynedd ar gyfer Cymru. Mae'r rôl hon yn gyfrifol ar lefel genedlaethol am yr holl faterion ariannol sy'n ymwneud ag ariannu'r GIG yng Nghymru. Mae'n cefnogi'r gwaith o ariannu'r canlyniadau iechyd a gofal gorau i bobl drwy roi arweiniad a chymorth mewn perthynas â swyddogaeth cyllid y GIG yng Nghymru a sicrhau bod gan ein gwasanaeth iechyd arweinyddiaeth ariannol broffesiynol effeithiol.

Rydym yn chwilio am Gyfarwyddwr Cyllid brwdfrydig sydd â hanes a fydd yn eu galluogi i ddarparu arweinyddiaeth broffesiynol i'r GIG yng Nghymru, a fydd yn cynnwys datblygu'r proffesiwn cyllid, adeiladu timau a sicrhau'r camau effeithlonrwydd gorau posibl.

Rydym yn awyddus i gael ceisiadau gan ymgeiswyr amrywiol sy'n gallu dangos rhinweddau arwain a dod â sgiliau ffres a phrofiadau bywyd i'n gwaith. Byddem yn croesawu'n arbennig geisiadau gan fenywod, pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a phobl anabl ar gyfer y rôl hon ac rydym wedi ymrwymo i helpu'r holl staff i ffynnu mewn amgylchedd gwaith cynhwysol.

Mae'r rôl yn gofyn am arweinydd sydd â chrebwyll o ran polisi strategol ac ymwybyddiaeth wleidyddol ynghyd â'r profiad a'r gallu i arwain, ysgogi a datblygu timau, gweithio ar draws ffiniau ac ychwanegu gwerth yn fy uwch dîm rheoli. Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus hanes o arweinyddiaeth, llwyddiant, gwydnwch a chyflawni ar lefel uwch gyda phrofiad o ysgogi newid, sicrhau gwerth am arian a throsi heriau strategol yn amcanion clir er mwyn cyflawni.

Os ydych chi'n meddwl bod gennych chi'r sgiliau, yr arbenigedd a'r profiad i gyflawni'r swydd gyffrous ond heriol hon ar ran Gweinidogion Cymru, byddwn yn falch iawn o dderbyn eich cais.

2. Cefndir Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru gyllideb flynyddol o tua £18 biliwn, ac mae'n gyfrifol am ystod o feysydd gan gynnwys iechyd, addysg a sgiliau, yr economi a thrafnidiaeth, ac amaethyddiaeth a'r amgylchedd.

Prif Weinidog Cymru a'i Gabinet sy'n ffurfio Llywodraeth Cymru ac sy'n gwneud penderfyniadau mewn meysydd o gyfrifoldeb datganoledig. Mae Gweinidogion Cymru yn atebol i Senedd Cymru, sef corff deddfu Cymru sy'n cynnwys 60 o Aelodau etholedig. Mae gweithlu o ryw 5,000 o weision sifil yn cefnogi Gweinidogion Cymru, gydag oddeutu hanner y rhain yn gweithio yng Nghaerdydd a'r gweddill yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ledled y wlad. Mae gan Lywodraeth Cymru swyddfeydd bach yn Llundain a Brwsel hefyd, a rhwydwaith tramor ar gyfer gwaith masnach a buddsoddi. Yr Ysgrifennydd Parhaol sy'n arwain Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru ac mae'n atebol i'r Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn werthoedd craidd gan Lywodraeth Cymru. Ein nod yw bod yn gyflogwr sy'n dangos esiampl, ac wrth wraidd ein gwaith y mae: Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar y Bwrdd, rhwydweithiau amrywiaeth bywiog a gefnogir gan hyrwyddwyr ar lefel uchel, targedau amrywiaeth a osodir i wella nifer y grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (er enghraifft, pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a staff anabl ar bob lefel a menywod ar lefelau uwch). Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio'r model cymdeithasol o anabledd yn y sefydliad ac i wneud addasiadau recriwtio ac addasiadau yn y gweithle i sicrhau cydraddoldeb i'n cydweithwyr anabl. Mae ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021 – 2026 yn datgan ein bwriad o fod yn sefydliad sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru yn llawn ar bob lefel, sefydliad sy'n wrth-hiliol ac sy'n gwrthwynebu gwahaniaethu o bob math. Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn nodi ein hymrwymiad i greu Cymru wrth-hiliol, y gallwn i gyd fod yn falch o berthyn iddi ac y gallwn ffynnu ynddi.

Mae ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a'r negodiadau rhyngwladol dilynol – ar ddyfodol perthynas y DU â'r UE ac ar gytundebau masnach y DU gyda gwledydd eraill – wedi arwain at oblygiadau sylweddol i Gymru ac i waith Llywodraeth Cymru. Mae ein perthynas gyfansoddiadol â Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill yn parhau i ddatblygu.

Yn ogystal, yn yr un modd â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Safonau'r Gymraeg, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth Sifil weithio mewn ffyrdd newydd a gwahanol i wella gwaith datblygu polisi a'r gwasanaethau a ddarperir i bobl Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gorff dwyieithog; caiff deddfwriaeth ei llunio yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae gan y ddwy iaith statws cyfreithiol cyfartal.

Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer y swydd hon ddangos gwerthfawrogiad o ddwyieithrwydd a rhannu ein hymrwymiad i hybu'r Gymraeg er mwyn sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydym yn annog ac yn cefnogi staff i ddysgu, datblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

3. Diben y swydd

Mae cyfanswm cyllideb flynyddol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn fwy na £9 biliwn gan gynnwys gwariant refeniw a gwariant cyfalaf. Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant yn digwydd o fewn GIG Cymru er bod rhaglenni cenedlaethol sylweddol hefyd yn cael eu hariannu i gefnogi'r polisi gwasanaethau cymdeithasol. Bydd y ffordd y caiff Llywodraeth Cymru ei hariannu yn parhau i newid yn sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi symud o fod bron yn gyfan gwbl ddibynnol ar grant bloc i system lawer mwy cymhleth lle mae ei chyllideb yn deillio o gyfuniad o grant bloc, pwerau benthyca a threthi a godir ar fusnesau neu ddinasyddion Cymru. Mae hyn wedi golygu cyfleoedd sylweddol i Weinidogion Cymru ddefnyddio'r hyblygrwydd ariannol ychwanegol, ond mae risgiau hefyd i'r ffordd yr ymdrinnir â'r broses newid. Bydd deiliad y swydd yn chwarae rhan allweddol wrth wneud y gorau o gyfleoedd yng nghyd-destun y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a chynghori arnynt.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn atebol i Gyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru a bydd yn aelod allweddol o'r Tîm Cyfarwyddwyr Gweithredol. Bydd yn rhoi arweiniad cryf ar reolaeth ariannol a chynllunio ar draws y Grŵp gan ganolbwyntio'n ddi-ball ar sicrhau bod cyflawni ariannol y Grŵp mor effeithlon â phosibl. Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, gan gyfuno gwybodaeth a dadansoddiadau cadarn i ddarparu mewnwelediad a her adeiladol, er mwyn cefnogi arloesedd strategol a phenderfyniadau busnes cadarn yn effeithiol ar draws y Grŵp. Byddant yn cynnal ac yn datblygu tîm proffesiynol uchel ei barch a chydweithredol sy'n ennyn hygrededd ar bob lefel ac yn hyrwyddo diwylliant o werth am arian ar draws y Grŵp ac wrth ddelio â'r GIG yng Nghymru.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid hefyd yn sicrhau bod y Grŵp yn cadw at egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a bod safbwynt y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn cael ei ystyried ym mhob penderfyniad perthnasol.

Bydd deiliad y swydd yn gwasanaethu fel Pennaeth y proffesiwn Cyllid o fewn GIG Cymru ac, o'r herwydd, bydd disgwyl iddo roi arweiniad proffesiynol i'r GIG yng Nghymru, a chefnogi'r Academi Cyllid i ddatblygu a moderneiddio'r swyddogaeth gyllid yng Nghymru gan hefyd hyrwyddo'r safonau uchaf o ran cywirdeb a llywodraethiant corfforaethol ar bob lefel o'r gwasanaeth er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau. Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn gweithio drwy Weithrediaeth y GIG i osod y safonau sy'n ddisgwyliedig gan GIG Cymru mewn perthynas â rheolaeth a llywodraethiant ariannol.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn chwarae rôl allweddol i helpu i gyflawni uchelgais y Llywodraeth ar gyfer integreiddio gwell ar draws y sectorau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac i adeiladu sector gofal cymdeithasol sy'n fwy gwydn fel partner allweddol ar gyfer y GIG.

4. Cyfrifoldebau allweddol

Mae cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Cyllid yn cynnwys:

- Rheoli cyllidebau, rheoli, adrodd a chyfrifyddu mewn perthynas â chyllideb flynyddol y Grŵp, sy'n fwy na £9 biliwn ar hyn o bryd, yn unol â safonau ariannol y llywodraeth.

- Rhoi cymorth a chyngor uniongyrchol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ar yr holl faterion ariannol perthnasol gan gynnwys busnes y Cabinet, Grwpiau Cynghori'r Gweinidogion a Byrddau Polisi, gan sicrhau bod cysylltiadau traws-bortffolio priodol yn cael eu nodi a'u cynnwys yn y gwasanaeth a'r cyngor a ddarperir.

- Cefnogi Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg drwy reoli risg yn effeithiol, prosesau busnes darbodus a fframwaith rheoli effeithiol.

- Arwain y gwaith o hyrwyddo a darparu rheolaeth ariannol dda ym mhob rhan o'r GIG er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu diogelu, eu defnyddio'n briodol, yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

- Adeiladu ac arwain tîm amrywiol a chynhwysol gan ganolbwyntio ar ymgysylltu cadarnhaol â staff.

- Chwarae rhan allweddol fel rhan o Dîm Cyfarwyddwyr Gweithredol y Grŵp a Thîm Arwain GIG Cymru.

- Rhoi arweiniad cyffredinol i'r Gyfarwyddiaeth Cyllid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan sicrhau rheolaeth ariannol, llywodraethiant ariannol ac arbenigedd o ansawdd uchel i weithredu i'r safon uchaf un.

- Arwain, ysgogi a grymuso staff yn y Gyfarwyddiaeth Cyllid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gefnogi eu datblygiad a'u hiechyd a'u lles.

- Darparu arweinyddiaeth ariannol broffesiynol i Uned Cyflawni Ariannol y GIG / Swyddogaeth Cynnal Gweithrediaeth y GIG a chyfarwyddo eu gweithgareddau i sicrhau bod y disgwyliadau o ran rheolaeth, llywodraethiant ac effeithiolrwydd ariannol y GIG yng Nghymru yn cael eu cyflawni.

5. Manyleb y person

Mae'r rôl yn gofyn am gyfrifydd cymwysedig (CCAB, CIMA neu gymhwyster cyfatebol) sydd â hanes cryf o arwain a rheoli ar lefel uwch mewn sefydliad cymhleth.

Mae'r rôl hefyd yn gofyn am y canlynol:

- Profiad mewn rôl a oedd yn gofyn am ddealltwriaeth o systemau cynllunio a rheoli ariannol y Llywodraeth a/neu'r GIG.

- Sensitifrwydd i'r cyd-destun gwleidyddol a'r gallu i ennyn yn gyflym hyder Gweinidogion, Cynghorwyr Arbennig, cydweithwyr ac uwch-gydweithwyr yn y GIG.

- Hanes profedig o gyfrifyddu rheoli, rhoi cyngor ariannol i lunwyr polisi, llywodraethiant corfforaethol ac agweddau ariannol ar reoli perfformiad.

- Gallu datblygedig i feddwl yn strategol, ynghyd â hanes o wneud cyfraniad sylweddol at wneud penderfyniadau strategol ac at lunio a chyflawni polisïau.

- Profiad sylweddol o arwain a datblygu tîm amrywiol o weithwyr cyllid proffesiynol a datblygu ysbryd o waith tîm ar draws ffiniau swyddogaethol a sefydliadol mewn sefydliad tebyg, i ddarparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol, gyda phrofiad penodol o sbarduno a gwella perfformiad.

- Y gallu i gynrychioli a dylanwadu ar y lefel uchaf, i gymell pobl ac i feithrin perthynas waith gydweithredol gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan adeiladu partneriaethau ar draws ffiniau traddodiadol sefydliadau a sectorau.

- Dangos ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth, tuag at y nodau o greu amgylchedd tecach yn y gweithle a Chymru decach.

- Byddai dealltwriaeth o Gymru a'i threftadaeth (gan gynnwys y Gymraeg) yn fantais. Bydd profiad ar lefel Bwrdd mewn sefydliad tebyg yr un mor fanteisiol.

Mae'r sgiliau arweinyddiaeth enghreifftiol isod hefyd yn hanfodol ar gyfer y rôl hon:

- Rhoi cyfle i staff ffynnu drwy ddal eu hunain ac eraill i gyfrif am gyflawni yn hytrach na gor-reoli ar sail syniadau sefydlog.

- Adeiladu ac arwain diwylliant gweithio cydweithredol a bod yn batrwm o ymddygiad o ran bod yn gynhwysol.

- Bod yn wleidyddol graff ac yn deall nodau ac agendâu perthnasol sefydliadau'r llywodraeth, yn ogystal â sefydliadau gwleidyddol a'r sector cyhoeddus ac unigolion allweddol sy'n rhyngweithio â'u sefydliad.

Gwybodaeth, Sgiliau a Phrofiad yr Uwch Wasanaeth Sifil – Cymwyseddau

Yn ogystal â'r meini prawf hanfodol sy'n benodol i'r rôl uchod, mae'r canlynol yn gyfres o nodweddion y disgwylir i bob aelod o'r Uwch Wasanaeth Sifil feddu arnynt. Ni fyddant yn cael eu hasesu'n uniongyrchol, fodd bynnag, efallai yr hoffech ystyried y rhain wrth ysgrifennu eich datganiad ategol a pharatoi ar gyfer cyfweliad:

• rheoli perthynas – ffurfio perthynas effeithiol er mwyn creu hyder, parch a chydweithio;

• datblygu a chydgysylltu strategol – cynghori, cefnogi a gosod cyfeiriad mewn amgylchedd cymhleth, gan ystyried blaenoriaethau'r sefydliad;

• sicrhau canlyniadau – trosi uchelgeisiau strategol eang yn amcanion perfformiad clir a gweithio gydag eraill i wella effeithiolrwydd gweithredol a sicrhau newid trawsnewidiol ar draws ffiniau;

• arweinyddiaeth – darparu cyfeiriad, sicrhau canlyniadau, adeiladu ar berthnasoedd a gallu, ysgogi ac ysbrydoli staff ar adeg o newid a herio; hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle;

• gwaith tîm – cyfrannu'n gadarnhaol mewn lleoliadau colegol a chreu diwylliant o berfformiad uchel a rheoli pobl yn effeithiol, datblygu sgiliau, capasiti a gallu o fewn eich tîm, ar draws y sefydliad ehangach a'r tu hwnt;

• cyfathrebu – sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol datblygedig iawn er mwyn ennyn hyder staff, cymheiriaid ac uwch-arweinwyr mewn sefydliadau;

• rheolaeth ariannol – ysgogi ansawdd, effeithlonrwydd a gwerth am arian wrth reoli cyllidebau;

• gwydnwch personol – y penderfyniad a'r stamina i gynnal effeithiolrwydd ar lefel uwch mewn amgylchedd corfforaethol gydag uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd a dideddrwydd.

Mae disgwyl i bob Gwas Sifil gydymffurfio â Chod y Gwasanaeth Sifil. Mae copi ohono i'w weld yn Atodiad B.

Y Gymraeg

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon, neu dylai ymgeiswyr fod yn barod i ddysgu ar ôl cael eu penodi. Bydd hyfforddiant ar gael, gan gynnwys cefnogaeth unigol.

6. Y cyfleoedd datblygu a gynigir gan y swydd

Mae'r swydd hon yn cynnig y cyfle i arwain Proffesiwn Cyllid y GIG ledled Cymru, rheoli maes gwaith hanfodol, gweladwy iawn i Lywodraeth Cymru, gan weithio'n agos gyda Gweinidogion, Cynghorwyr Arbennig ac uwch-swyddogion. Byddwch yn ennill profiad o weithio mewn maes proffil uchel, gan feithrin hyder a gwybodaeth ar y cyd â rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Byddwch hefyd yn gallu siapio cyfeiriad gwariant y GIG yn y dyfodol gan gefnogi'r Rhaglen Lywodraethu.

Mae'r swydd hefyd yn cynnig cyfle i lywio'r gwaith i greu Gweithrediaeth newydd y GIG gan ei bod yn darparu cyfeiriad strategol i'r GIG i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau'r Llywodraeth ac i wella canlyniadau iechyd ar gyfer poblogaeth Cymru. Bydd bod yn hyrwyddwr dros gysoni amcanion clinigol ac ariannol, drwy ganolbwyntio mwy ar ddarparu iechyd a gofal sy'n seiliedig ar werth, yn agwedd allweddol ar hyn.

7. Sut i wneud cais

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd ceisiadau yn y naill iaith neu'r llall yn cael eu trin yn gyfartal.

Dylid gwneud cais drwy ddefnyddio system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru a dylid cyflwyno'r cais erbyn **23:55 19 Hydref 2022** fan hwyraf. I wneud cais, gofynnir ichi gofrestru i gael cyfrif ar y system ymgeisio ar-lein gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost. Rydym yn argymell eich bod yn dewis cyfeiriad e-bost nad oes gan neb arall fynediad ato, gan mai dyma fydd ein prif ddull o gyfathrebu gyda chi am y broses ddethol.

Os oes gennych nam sy'n golygu na allwch wneud cais ar-lein, anfonwch neges e-bost i RecriwtioUWS@llyw.cymru i ofyn am fformat arall, neu i ofyn am addasiad rhesymol er mwyn cyflwyno'ch cais

Recriwtio Dienw

Dylid tynnu eich enw o'ch CV a'ch datganiad personol pan fyddwch yn cyflwyno'ch cais.

Fel rhan o'r broses recriwtio, mae'n ofynnol ichi ddarparu'r canlynol:

- **Ffurflen gais wedi'i chwblhau**;
- **CV diweddar** sy'n cynnwys manylion hanes eich gyrfa gan gynnwys cyfrifoldebau a chyflawniadau allweddol;
- **Datganiad personol heb fod yn fwy na dwy ochr A4** yn esbonio sut y mae'ch cymwysterau, eich sgiliau, eich rhinweddau a'ch profiadau proffesiynol yn eich gwneud yn addas i'r swydd ac, yn benodol, sut yr ydych yn bodloni manyleb y person.

Gwybodaeth am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau gweithlu sy'n adlewyrchu'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu, ar bob lefel, gan gynnwys y lefelau uchaf. Gofynnir ichi gadarnhau rhywfaint o wybodaeth am amrywiaeth ar eich ffurflen gais. Drwy gasglu'r wybodaeth hon, gallwn weld a ydym yn recriwtio o'r pwll ehangaf posibl o ddoniau, a sicrhau bod yr holl grwpiau'n cael eu trin yn deg drwy gydol y broses. Ni fydd y ffurflen hon yn cael ei datgelu i unrhyw un sy'n asesu'ch cais. Os nad ydych am ateb cwestiwn penodol, dewiswch yr opsiwn 'Gwell gennyf beidio â dweud'. Ni fydd modd ichi gyflwyno'ch cais os oes unrhyw un o'r cwestiynau ar ôl heb ei ateb.

Cwestiynau a thrafodaeth anffurfiol

Os hoffech drafod y swydd hon ymhellach cyn gwneud cais, cysylltwch â RecriwtioUWS@llyw.cymru

Problemau technegol ar-lein - Anfonwch e-bost i RecriwtioUWS@llyw.cymru

8. Y broses ddethol

Bydd y Tîm Recriwtio yn cydnabod eich cais drwy system Llywodraeth Cymru, a phan fo'n briodol byddwch yn cael gwybod am ganlyniad y cyfarfod i lunio'r rhestr fer, a gynhelir ar **25 Hydref 2022**.

Asesiadau ar gyfer Ymgeiswyr ar y Rhestr Fer yn Unig

Bydd y gweithgareddau isod yn rhan o'r asesiad cyffredinol sydd ei angen ar gyfer yr ymarfer recriwtio hwn:

- **Profion seicometreg ar-lein** – bydd y rhain yn cynnwys rhesymu rhifiadol a geiriol a thrafodaeth â seicolegydd. Byddwch yn cael dolen at y profion ar-lein ymhen 10 diwrnod ar ôl y cyfarfod i lunio'r rhestr fer.

  Os ydych chi wedi cwblhau'r profion seicometreg ar-lein yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, ar gyfer swydd ar yr un radd, ni fydd angen ichi eu gwneud eto ar gyfer yr ymarfer recriwtio penodol hwn.

- **Ymarfer ymgysylltu â staff / rhanddeiliaid** – cynhelir y rhain ar **4 Tachwedd 2022**. Rhagor o fanylion i ddilyn.

- **Sgwrs gartrefol** – Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cymryd rhan mewn 'sgwrs gartrefol' Weinidogol. **Dyddiad i'w gadarnhau**. Rhagor o fanylion i ddilyn.

- **Cyfweliadau gan banel, a chyflwyniad** – mae'r rhain wedi'u trefnu ar gyfer **15 Tachwedd 2022**. Bydd y rhain hefyd yn cael eu cynnal yn rhithwir drwy Microsoft Teams. Bydd y cyfweliadau'n para tua 45 munud. Bydd y Panel yn cael adborth ar ôl ichi gwblhau'ch profion seicometrig a chymryd rhan yn yr ymarfer ymgysylltu â staff/rhanddeiliaid, cyn ichi gael cyfweliad. Bydd eich cyfweliad yn ystyried sut y mae eich sgiliau a'ch profiad fel y maent wedi'u hamlinellu yn eich CV a'ch datganiad personol yn bodloni gofynion y rôl. Bydd ymgeiswyr yn cael o leiaf wythnos o rybudd am bwnc y cyflwyniad. Nodwch y dylid gwneud y cyflwyniadau heb rannu taflenni neu ddefnyddio dyfeisiau electronig oni bai bod hynny'n rhan o addasiad rhesymol. Fodd bynnag, mae croeso ichi ddefnyddio cardiau i brocio'r cof.

Nodwch y gellir gwneud addasiadau ar unrhyw gam o'r broses recriwtio ar gyfer ymgeiswyr sydd â nam neu gyflwr iechyd, sy'n niwrowahanol neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Cysylltwch â RecriwtioUWS@llyw.cymru i drafod addasiadau ar gyfer unrhyw ran o'r broses.

Bydd y panel dethol yn cynnwys:

- Judith Paget – Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a Phrif Weithredwr GIG Cymru
- Glyn Jones –Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Peter Kennedy – Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Llywodraeth Cymru

Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru

Penodwyd Judith i rôl Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru ym mis Tachwedd 2021. Mae ei rôl yn cynnwys cefnogi blaenoriaethau Gweinidogol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol o fewn strwythurau'r Gwasanaeth Sifil, ac arwain a goruchwylio GIG Cymru.

Cyn hyn, roedd Judith yn Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Ymunodd Judith â'r Bwrdd Iechyd fel Cyfarwyddwr Cynllunio a Gweithrediadau ar 1 Hydref 2009 ac yna daeth yn Brif Swyddog Gweithredu/Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol cyn cael ei phenodi'n Brif Weithredwr.

Mae Judith wedi gweithio yn y GIG ers 1980 ac mae wedi ymgymryd â rolau gweithredol, cynllunio a chomisiynu amrywiol mewn nifer o sefydliadau'r GIG ar draws y De, y Canolbarth a'r Gorllewin. Cafodd Judith ei phenodi i'w rôl gyntaf fel Prif Swyddog Gweithredol yn 2003. Mae gan Judith ddiddordeb mawr mewn gweithio mewn partneriaeth ar draws gwasanaethau cyhoeddus; gofal sylfaenol a datblygu cymunedol; gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth a datblygu staff ac ymgysylltu â staff.

Cafodd Judith ei dyfarnu'n Gydymaith o'r Sefydliad Rheolwyr Gwasanaethau Iechyd yn 2012 ac ym mis Mehefin 2014, enillodd Wobr Sefydliad y Cyfarwyddwyr – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru. Ym mis Mehefin 2019, derbyniodd Judith CBE yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines am ei gwasanaeth i gyflenwi a rheoli yn GIG Cymru.

Glyn Jones – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dechreuodd Glyn yn y GIG ym 1989, gan ymuno â chynllun hyfforddiant rheolaeth ariannol GIG Cymru. Mae wedi treulio'r rhan fwyaf o'i yrfa yn gweithio yn y GIG yng Nghymru a De-orllewin Lloegr. Fodd bynnag, treuliodd bedair blynedd hefyd yn gweithio i'r Ganolfan Byd Gwaith lle chwaraeodd ran i ddatblygu dull partneriaid busnes cyllid, cyn dychwelyd i'r GIG yn 2010 fel Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

Mae Glyn wedi mynychu Ysgol Fusnes Harvard ddwywaith, lle bu'n astudio mesur perfformiad mewn sefydliadau nid-er-elw a mesur gwerth mewn gofal iechyd. Mae ei rolau blaenorol wedi cynnwys swyddi Cyfarwyddwr Cyllid y GIG yn y Rhondda, Bryste, Sir Gaerfyrddin a Phowys. Mae hefyd yn drysorydd gwirfoddol ar fwrdd Canolfan Cyngor ar Bopeth Blaenau Gwent a Chaerffili, ac mae'n un o ymddiriedolwyr y bwrdd.

Mae Glyn wedi gweithio fel Cyfarwyddwr Cyllid, Caffael a Pherfformiad a Dirprwy Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ers 2016, yn fwyaf diweddar yn meddiannu rôl y Prif Weithredwr dros dro.

Peter Kennedy, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Llywodraeth Cymru

Fy rôl bresennol yw Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru.

Ymunais â Llywodraeth Cymru yn 2004 ar ôl gweithio am nifer o flynyddoedd yn y Weinyddiaeth Amddiffyn. Treuliais 9 mlynedd gyda'r RAF ym maes cynnal a chadw awyrennau ac mewn swyddi hyfforddi technegol.

Mae gen i gymwysterau proffesiynol mewn adnoddau dynol a llawer o flynyddoedd o brofiad ar lefel weithredol a strategol ym maes Adnoddau Dynol, yn ogystal â

phrofiad o TGCh, Iechyd a Diogelwch, Rheoli Cyfleusterau, a Chynllunio ar gyfer Argyfyngau.

Mae gen i gyfrifoldebau ychwanegol hefyd, sef Prif Noddwr y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth.

Rwy'n briod â Jenny ac mae gen i ddau o blant sy'n oedolion, a thair wyres.

Cafodd Jenny ddiagnosis o Sglerosis Ymledol 7 mlynedd yn ôl ac mae'r sefydliad wedi bod yn hynod gefnogol a hyblyg wrth fy helpu i sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng bod yn Uwch Was Sifil ac yn ofalwr.

Y Cynllun Cyf-weld Hyderus o Ran Anabledd

Fel rhan o'n hymrwymiad i annog pobl anabl i ymgeisio am swydd yn Llywodraeth Cymru, byddwn yn cynnig cyfweliad i bobl anabl sy'n bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd a'ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas sy'n analluogi pobl sydd â namau neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff (neu aelodau staff newydd posibl) berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, os ydych yn niwrowahanol neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain a bod angen ichi drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, neu os hoffech drafod sut y byddwn yn eich cefnogi os bydd eich cais yn llwyddiannus, anfonwch e-bost i RecriwtioUWS@llyw.cymru cyn gynted â phosibl a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich pryderon a'ch anghenion.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi pobl anabl a datblygu eu gyrfa.

Gweithle Gwych i Gyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog

Mae'r swydd wag hon yn rhan o'r fenter Gweithle Gwych i Gyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog.

Cymwyseddau

Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr ddangos hefyd fod ganddynt yr holl sgiliau arwain a'r sgiliau craidd y mae disgwyl i Uwch Weision Sifil feddu arnynt fel rhan o fframwaith cymwyseddau'r Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am gymwyseddau craidd yn y ddogfen lawn sydd i'w gweld yma.

Cod y Gwasanaeth Sifil

Mae disgwyl i bob gwas sifil gydymffurfio â Chod y Gwasanaeth Sifil. Gweler Atodiad B.

Amserlen fras

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **23:55 19 Hydref 2022**

Cyfarfod i lunio'r rhestr fer: **25 Hydref 2022**

Profion seicometreg: o fewn 10 niwrnod i'r cyfarfod i lunio'r rhestr fer

Ymarfer Ymgysylltu â Rhanddeiliaid: **4 Tachwedd 2022**

Sgwrs gartrefol: **Dyddiad i'w gadarnhau**

Panel cyf-weld: **15 Tachwedd 2022**

Bydd yr holl asesiadau uchod yn cael eu cynnal o bell drwy Microsoft Teams. Gall y dyddiadau a nodir uchod newid.

9. Telerau penodi

Mae hon yn swydd barhaol. Mae ar gael i weithwyr parhaol Gwasanaeth Sifil y DU (a recriwtiwyd drwy gystadleuaeth deg ac agored) ar sail symud ar draws neu ddyrchafiad. Mae'r swydd ar gael hefyd i'r rhai sy'n dymuno ymuno â'r Gwasanaeth Sifil ac i'r rhai sy'n dymuno gwneud cais ar sail cael eu benthyg neu ar sail secondiad am hyd at ddwy flynedd i ddechrau.

Cymhwysedd

Gofynnir nifer o gwestiynau ichi fel rhan o'ch cais. Diben y cwestiynau hyn yw pennu a ydych yn gymwys i wneud cais am y cyfle hwn. Gofynnir ichi gadarnhau manylion eich cenedligrwydd, fel rhan o'ch cymhwysedd, a chadarnhau bod hawl gyfreithiol gennych i weithio yn y Deyrnas Unedig. Mae hwn yn un o'r gofynion ar gyfer gweithio yn y Gwasanaeth Sifil. Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd fel y'u nodir yn y ffurflen gais, ni fydd eich cais yn mynd ymhellach. Os daw'n amlwg yn ddiweddarach yn y broses nad ydych yn gymwys i wneud cais, mae'n bosibl y bydd eich cais neu'ch cynnig yn cael ei dynnu'n ôl.

Gofynion cenedligrwydd

Mae'r swydd hon yn agored yn fras i'r grwpiau canlynol:

- *gwladolion y DU*
- *gwladolion gwledydd y Gymanwlad sydd â hawl i weithio yn y DU*
- *gwladolion Gweriniaeth Iwerddon*
- *gwladolion o'r UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'r Swistir â statws preswylydd sefydlog neu breswylydd cyn-sefydlog neu sy'n gwneud cais am y naill statws neu'r llall erbyn dyddiad cau y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS)*
- *gwladolion perthnasol yr UE, yr AEE, y Swistir neu Dwrci sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Sifil*
- *gwladolion perthnasol yr UE, yr AEE, y Swistir neu Dwrci sydd wedi datblygu'r hawl i weithio yn y Gwasanaeth Sifil*
- *rhai aelodau penodol o deuluoedd gwladolion yr UE, yr AEE, y Swistir a Thwrci*

Rhagor o wybodaeth am ofynion cenedligrwydd

Tâl cydnabyddiaeth

Mae'r swydd ar lefel Cyfarwyddwr ac mae'r cyflog cychwynnol tua £150,000 gyda thâl ychwanegol yn ôl disgresiwn ar gyfer ymgeisydd eithriadol.

I'r rheini sy'n Weision Sifil eisoes

Os ydych yn Gyfarwyddwr presennol sy'n gwneud cais ar sail trosglwyddo ar draws i Lywodraeth Cymru, byddwch yn cadw'ch cyflog presennol.

Os ydych yn was sifil sy'n gwneud cais am ddyrchafiad, bydd y cyflog cychwynnol ar ôl y dyrchafiad yn golygu cynnydd o 10% i'r cyflog sylfaenol neu bydd ar lefel isaf y band cyflog, pa un bynnag sydd uchaf. Er hynny, bydd staff sy'n cael dyrchafiad o uchafswm band cyflog Gradd 6 yn gweld cap o 5% ar y cynnydd, neu bydd ar lefel isaf band cyflog yr Uwch Wasanaeth Sifil, pa un bynnag sydd uchaf.

Secondiad

Os ydych yn ymgeisio am y swydd hon ar sail secondiad, byddwch yn cadw'ch telerau ac amodau presennol, gan gynnwys y cyflog.

Lleoliad

Gallwch weithio o unrhyw un o bedair swyddfa Llywodraeth Cymru sydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, Merthyr Tudful, Cyffordd Llandudno ac Aberystwyth. Rydym yn gefnogol i weithio gartref ac yn teilwra patrymau i gyd-fynd ag amgylchiadau unigolion. Mae'r rhan fwyaf o staff Llywodraeth Cymru yn gweithio gartref neu'n gweithio o bell yn rhywle arall ar hyn o bryd, a bydd hyn yn parhau i ryw raddau fel y gallwn leihau ein heffaith amgylcheddol a chefnogi pobl i weithio'n agosach at y cymunedau lle maent yn byw.

Costau adleoli

Mae'n bosibl y bydd costau adleoli o hyd at £8,000 ar gael.

Oriau gwaith

Mae hon yn swydd amser llawn ac mae ar gael ar sail amser llawn neu ar sail rhannu swydd. Os byddwch yn gwneud cais fel partneriaeth rhannu swydd, disgwylir i'r trefniant hwn fod yn ei le pan fyddwch yn cyflwyno'ch cais a dylech sicrhau ei bod yn glir yn eich ffurflenni cais eich bod yn ymgeisio fel rhan o bartneriaeth rhannu swydd.

Gweithio'n Glyfar

Mae Llywodraeth Cymru yn hybu Gweithio'n Glyfar. Mae hyn yn golygu ystyried sut yr ydych yn defnyddio'ch amser a ble a sut yr ydych yn gweithio, er mwyn diwallu anghenion busnes yn y ffordd fwyaf hyblyg a chynhyrchiol. Mae hyn yn rhoi cryn hyblygrwydd i staff, a'r disgwyl yw y bydd timau'n gweithio gartref am ganran uchel o'r amser hyd y gellir rhag-weld. Mae gweithio clyfar a hyblyg yn dod yn nodwedd barhaol o fywyd gwaith yng Nghymru a bydd Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd yn hyn o beth.

Gwyliau blynyddol

Hyd gwasanaeth:

- Hyd at flwyddyn – hawl i 25 diwrnod o wyliau blynyddol;
- 1 flwyddyn – hyd at 2 flynedd – hawl i 26 diwrnod o wyliau blynyddol;

• 2 flynedd – hyd at 3 blynedd – hawl i 27 diwrnod o wyliau blynyddol;

• 3 blynedd – hyd at 4 blynedd – hawl i 28 diwrnod o wyliau blynyddol;

• 4 blynedd – hyd at 5 mlynedd – hawl i 29 diwrnod o wyliau blynyddol;

• 5 mlynedd neu fwy – hawl i 30 diwrnod o wyliau blynyddol.

Os yw gweithiwr sydd eisoes yn was sifil yn cael ei ddyrchafu i'r Uwch Wasanaeth Sifil neu oddi fewn iddo, bydd ei hawl i wyliau blynyddol yn seiliedig ar hyd ei gyflogaeth barhaus yn y Gwasanaeth Sifil, fel y gwelir uchod.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei benodi yn unol â thelerau ac amodau diweddaraf yr Uwch Wasanaeth Sifil.

Ymddeol

Nid oes oedran ymddeol gorfodol ar gyfer Uwch Weision Sifil.

Telerau a Buddion

Cynllun Pensiwn: https://www.civilservicepensionscheme.org.uk

• Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol, gan gynnwys cwnsela a gofal llygaid.
• Darpariaethau absenoldeb, gan gynnwys:

– Absenoldeb gofalwyr;
– Absenoldeb mamolaeth â thâl a heb dâl;
– Absenoldeb tadolaeth hyblyg â thâl;
– Absenoldeb mabwysiadu hyblyg â thâl;
– Absenoldeb rhieni wedi’i rannu.

Gwrthdaro Buddiannau

Dylai ymgeiswyr nodi bod yn rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau a allai arwain at gwestiynau am y ffordd y maent yn ymdrin â busnes Llywodraeth Cymru.

Rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau busnes perthnasol, cyfranddaliadau, swyddi o awdurdod, taliadau cadw, trefniadau ymgynghori neu gysylltiadau eraill â chyrff masnachol, cyhoeddus neu wirfoddol, o’u rhan eu hunain ac o ran eu priod neu eu partner.

Bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus roi'r gorau i unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro, ac mae'n bosibl y caiff eu buddiannau busnes ac ariannol eraill eu cyhoeddi.

Y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol

Daw'r swydd hon o dan y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol.

Amrywiaeth a Chydraddoldeb

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sy'n croesawu amrywiaeth ac sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal. Ein nod yw sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn yn cael eu hymgorffori yn ein harferion gwaith o ddydd i ddydd gyda'n holl gwsmeriaid, cydweithwyr a phartneriaid. Mae gan y Bwrdd Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac mae'n cael diweddariadau rheolaidd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Rydym wedi ymrwymo i recriwtio menywod, pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a phobl anabl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd yn yr Uwch Wasanaeth Sifil.

Rydym wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth, cael gwared ar rwystrau a chefnogi ein holl staff i gyflawni eu potensial. Rydym yn Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall ac yn sefydliad Hyderus o ran Anabledd ar Lefel 3 (Arweinydd). Mae pum Rhwydwaith Staff sy'n cael eu noddi gan y Bwrdd yn allweddol er mwyn cefnogi'r gwaith hwn ac er mwyn rhoi cefnogaeth gan gymheiriaid, sef Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd (DAAS); Rhwydwaith y Staff Ethnig Lleiafrifol (MESN); Materion y Meddwl (Iechyd meddwl a llesiant); PRISM (Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol, Drawsryweddol, Ryngrywiol +) a Menywod Ynghyd.

Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil

Mae'r penodiad hwn yn cael ei oruchwylio gan Gomisiynydd Gwasanaeth Sifil Margaret Edwards ar ran Comisiwn y Gwasanaeth Sifil.

Mae prosesau recriwtio Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar yr egwyddor o benodi yn ôl teilyngdod, ar sail cystadleuaeth deg ac agored, fel y nodir yn Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil.

Os ydych yn teimlo nad yw eich cais wedi cael ei drin yn unol â'r Egwyddorion Recriwtio ac os hoffech wneud cwyn, dylech gysylltu â RecriwtioUWS@llyw.cymru yn y lle cyntaf.

Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb a gewch oddi wrth Lywodraeth Cymru, gallwch gysylltu â Swyddfa Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil.

Lefel diogelwch

Rhaid bod gan yr ymgeisydd llwyddiannus gliriad ar lefel Gwiriad Diogelwch, cyn dechrau ar y swydd. Mae'r amserlen ar gyfer cael cliriad diogelwch yn gallu amrywio, ond gall gymryd rhwng 10 a 12 wythnos ar ôl derbyn y gwaith papur wedi'i gwblhau.

Atodiadau

Atodiad A: DATGANIAD ARWEINYDDIAETH Y GWASANAETH SIFIL

Atodiad B: COD Y GWASANAETH SIFIL